Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| PENNAWD RHEOLI | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Gwasanaethau Campws ac Ystadau | | |
| **Awdur** | Glyn Smith | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Lynda Powell | | |
| **Gweithredir Gan:** | Gwasanaethau Preswyl | | |
| **Cyfeirnod y Polisi:** | POEST2324031 | | |
| **Polisi a Ddisodlir:** | POEST2223029 | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Uwch Dîm Arwain |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 11.12.23 | **Rhif cofnod:** | |
| **Statws:** | Drafft | **Dyddiad Gweithredu:** | Ionawr 2024 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Ionawr 2027 |
| Rwyf wedi cynnal **A CHYFLWYNO** Asesiad o'r Effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. | | | X |
| Rwyf wedi cynnal **A CHYFLWYNO** Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i helpu i ddiogelu'r Gymraeg a darpariaeth y Gymraeg o fewn y Brifysgol. | | | X |

# POLISI DYRANNU LLETY'R BRIFYSGOL

## Polisi ar gyfer dyrannu ystafelloedd yn Llety Pentref Myfyrwyr

**Wrecsam Diffiniadau:**

**Cadarn Diamod** Mae cynnig Cadarn Diamod yn golygu eich bod wedi bodloni'r holl ofynion academaidd ac mae'r Brifysgol yn hapus i'ch derbyn ar gwrs (yn amodol ar fodloni gofynion anacademaidd sy'n berthnasol, megis cymeradwyaeth Iechyd Galwedigaethol a/neu wiriad DBS).

**Cadarn Amodol** Mae cynnig Cadarn Amodol yn golygu y bydd y Brifysgol yn cynnig lle i chi ar gwrs os ydych yn bodloni amodau academaidd penodol, sydd fel arfer yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau. Mae cynigion amodol hefyd yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion anacademaidd sy'n berthnasol, megis cymeradwyaeth Therapi Galwedigaethol a/neu wiriad DBS.

**Clirio** system a ddefnyddir tuag at ddiwedd y cylch academaidd i ganiatáu ymgeiswyr nad ydynt wedi sicrhau lle mewn prifysgol neu i'r rhai sy'n dymuno astudio ar gwrs gwahanol neu mewn prifysgol wahanol i'w dewis gwreiddiol i ymgeisio am leoedd gwag ar gyrsiau

**Prifysgol Wrecsam:**

*Mae ein hystafelloedd yn boblogaidd iawn sy'n golygu, yn anffodus, ni fydd pawb sy'n ymgeisio yn cael lle. Felly, rydym yn gweithio yn ôl system sy'n rhoi ystafelloedd i'r rhai sydd eu hangen yn bennaf. Mae hyn yn golygu y rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n bodloni un o'r pethau canlynol:*

- *Maent ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaethau.*
- *Maent ar gwrs llawn amser ym Mhrifysgol Wrecsam.*
- *Nid ydynt erioed wedi astudio ym Mhrifysgol Wrecsam o'r blaen.*
- *Maent yn byw yn rhy bell i allu teithio neu ddod o hyd i lety rhentu preifat.*
- *Mae ganddynt anghenion cymdeithasol a/neu gorfforol penodol.*
- *Maent wedi ymrestru ar Gynllun Hyfforddiant Nyrsys Rhyngwladol 3 blynedd (50 Lle)*

*Gall myfyrwyr sy'n dychwelyd ymgeisio am lety prifysgol ar gyfer unrhyw ystafelloedd sy'n weddill a all fod ar gael, ond hynny ar ôl i'r holl ymgeiswyr o'r meini prawf uchod gael eu dyrannu a'u derbyn.*

Rydym yn gweithredu polisi dyrannu teg nad yw'n gwahaniaethu ar sail hil, lliw, crefydd, ethnigrwydd, rhywioldeb, oedran, rhywedd nac anabledd.

**Y Broses Ymgeisio**

- Cymerwch olwg ar y dudalen gwe 'Llety', https://wrexham.ac.uk/cy/llety/, sy'n cynnwys rhestr o'r holl gyfleusterau, rhenti a ffotograffau
- Mae ceisiadau yn agor ym mis Mawrth pob blwyddyn.
- Ar ôl i chi dderbyn Cynnig Cwrs cadarn Amodol/Diamod ym Mhrifysgol Wrecsam ac wedi cael eich rhif myfyriwr, gallwch gyrchu'r Porth Llety i gofrestru a chwblhau'r broses gofrestru ar-lein
- Dewiswch y llwybr ymgeisio
- Dewiswch eich hoff lety
- Dewiswch y drwydded/contract priodol sy'n berthnasol i'ch cwrs
- Ychwanegwch unrhyw wybodaeth ychwanegol a all fod yn berthnasol i'ch dyraniad
- Ticiwch y blwch i gytuno i'r telerau ac amodau ac yna cyflwynwch eich cais
- Cewch yna e-bost i gadarnhau bod eich cais wedi cael ei gyflwyno ac yn cael ei brosesu
- Caiff ymgeiswyr llwyddiannus gynnig ystafell a bydd ganddynt 14 diwrnod i dderbyn y cynnig ac i dalu rhagdaliad o £250 i sicrhau'r ystafell
- Caiff myfyrwyr e-bost a fydd yn eu cyfeirio at gwblhau sesiwn Gynefino ar-lein ac i drefnu amser cyrraedd.
- Daw cyfnod y drwydded i rym pan fydd myfyrwyr yn cyrraedd Prifysgol Wrecsam. Byddwn yma i'ch croesawu a gwneud y llety i deimlo fel cartref.
- Pan fyddwch yn cyrraedd, cewch eich 'Llawlyfr Preswylydd' sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol y bydd ei hangen arnoch yn ystod eich cyfnod gyda ni.
- Mae symud/cyfnewid ystafell yn ddibynnol ar argaeledd ac mae ffi symud ystafell yn berthnasol

## Proses Cynnig Ystafell

O fis Mawrth, byddwn yn dechrau dyrannu ymgeiswyr ac yn anfon Cynigion Ystafell dros e-bost at fyfyrwyr sydd â:

(a) chynnig Cadarn Diamod ac sydd wedi ymgeisio erbyn y dyddiad cau

O fis Awst (yn agored i gael ei newid), byddwn yn dechrau dyrannu ymgeiswyr ac yn anfon Cynigion Ystafell dros e-bost i fyfyrwyr sydd â:

(b) chynnig Cadarn Amodol sy'n newid i gynnig Cadarn Diamod ar ôl cael canlyniadau arholiadau neu ddogfennau eraill y mae eich cyfadran eu hangen ac sydd wedi ymgeisio erbyn y dyddiad cau

Caiff dyraniadau eu prosesau ar sail y cyntaf i'r felin.

**Ni allwn addo eich dewis cyntaf ar gyfer llety nac ychwaith addo llety un rhywedd gan fod lleoedd yn ddibynnol ar argaeledd**.

Pan gaiff ystafell ei chynnig, cewch e-bost a fydd yn dweud wrthych am fewngofnodi i'r Porth Llety; bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir yn yr e-bost hwn. Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a gafodd ei ddefnyddio pan ymgeisioch am y llety yn y lle cyntaf.

Bydd angen i chi wneud rhagdaliad o £250 i dderbyn y cynnig llety erbyn dyddiad cau penodol. Os nad ydych chi wedi ymateb o fewn y cyfnod penodol, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl a bydd yr ystafell yn cael ei chynnig i fyfyriwr arall.

Caiff myfyrwyr y DU a myfyrwyr rhyngwladol 14 diwrnod i dderbyn y cynnig am lety. Mae felly'n hanfodol eich bod yn cadw llygaid ar eich e-byst pob dydd.

Os caiff eich cynnig ystafell ei wrthod neu ei dynnu'n ôl ac rydych angen llety o hyd, bydd angen i chi wneud cais newydd a chaiff eich cais ei osod yn unol â hynny yn y ciw i ddisgwyl cael eich dyrannu.

Nid yw dyraniadau yn seiliedig ar oedran, rhywedd na chred grefyddol.

## Myfyrwyr sy'n dychwelyd / Myfyrwyr Ôl-raddedig

Yn amodol ar argaeledd, byddwn yn cynnig llety i fyfyrwyr sy'n dychwelyd / myfyrwyr ôl-raddedig. Serch hynny, dylech fod yn ymwybodol ein bod yn blaenoriaethu myfyrwyr blwyddyn gyntaf a myfyrwyr nyrsio rhyngwladol wrth ddyrannu ystafelloedd. Yn ogystal â hyn, nid oes unrhyw lety sy'n benodol i fyfyrwyr sy'n dychwelyd na myfyrwyr ôl-raddedig, felly, fe fyddwch yn rhannu â myfyrwyr Israddedig.

**Derbyniadau DU a Rhyngwladol Mis Medi**

Rydym yn gallu cynnig llety i fyfyrwyr Israddedig rhyngwladol ac o'r DU yn y llety, ar yr amod eich bod wedi derbyn lle ar gwrs ac wedi ymgeisio am lety drwy'r porth ar-lein

**Cynllun Hyfforddiant Nyrsys Rhyngwladol**

Byddwn yn sicrhau llety i'r rhai sydd wedi ymrestru ar y Cynllun Hyfforddiant Nyrsys Rhyngwladol os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol a nodir yn y broses ymgeisio am gwrs. Bydd y llety yn cael ei sicrhau am gyfnod llawn y cwrs (3 blynedd ar y mwyaf).

**Myfyrwyr Semester 1 a Semester 2**

Yn amodol ar argaeledd, byddwn yn gwneud ein gorau i gynnig llety i fyfyrwyr Semester 1 a Semester 2 ar yr amod eich bod wedi cael cynnig lle ar gwrs, a'i dderbyn, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnig ystafell ac wedi ymgeisio am lety drwy'r porth ar-lein.

**Myfyrwyr y Broses Glirio**

Yn amodol ar argaeledd, byddwn yn gwneud ein gorau i gynnig llety yn llety'r Brifysgol, ar yr amod eich bod wedi derbyn lle ar gwrs ac wedi ymgeisio am lety erbyn diwedd mis Medi. Bydd hyn ar sail y cyntaf i'r felin.

**Rhestr aros**

Gan fod cymaint o alw am ein hystafelloedd, rydym yn cadw rhestr aros o ddechrau pob blwyddyn academaidd. Ni allwn addo y byddwn yn dod o hyd i ystafell yn y neuaddau i bawb ar y rhestr aros. Fodd bynnag, os nad ydych chi'n llwyddiannus, byddwn yn ceisio eich helpu i ddod o hyd i lety yn y sector cyhoeddus.

**Rhai dan 18 mlwydd oed**

Mae'r holl lety myfyrwyr yn amgylchedd i oedolion lle y mae'r rhan fwyaf o breswylwyr dros 18 mlwydd oed. Ni fydd myfyrwyr sy'n rhannu fflat â myfyriwr dan 18 mlwydd oed wedi cael eu fetio. Mae'r holl ystafelloedd ar gyfer un unigolyn, fodd bynnag bydd myfyrwyr yn rhannu cyfleusterau cegin/ystafell fwyta/lolfa. Nid yw dyraniadau yn seiliedig ar oedran, rhywedd na chred grefyddol.

Bydd angen i fyfyrwyr dan 18 mlwydd oed lenwi'r ffurflen Datganiad gan Rieni Pobl Ifanc

**Pobl sy'n gadael gofal/ Pobl â phrofiad o fod mewn gofal**

Byddwn yn sicrhau llety i bobl sy'n gadael gofal os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ymgeisio newydd ar gyfer pob blwyddyn academaidd erbyn y dyddiad cau a roddir.

Person sy’n gadael gofal yw rhywun sydd wedi byw gyda rhieni maeth, mewn cartref plant, cartref plant amddifaid, neu lety gwarchod yn y gorffennol ac sydd wedi bod dan ofal yr Awdurdod Lleol am gyfnod o 13 wythnos neu ragor sy’n cynnwys am ei gyfnod yn 16eg (Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000).

Noder: efallai y bydd gofyn i chi symud ystafelloedd yn ystod gwyliau’r haf.

**Myfyrwyr ag Anableddau**

Os oes gennych anabledd neu gyflwr meddygol hirdymor ac mae angen addasiadau arnoch, mae’n hanfodol eich bod yn cysylltu â’r Tîm Preswyl a Bywyd Campws ar accommodation@wrexham.ac.uk cyn gynted ag y bo modd i drafod eich gofynion penodol. Gallwn gynnig ystafell i chi ar ôl i ni allu cadarnhau bod llety priodol ar gael ac y gall addasiadau rhesymol gael eu gwneud. Efallai y gallwn gynnig llety i chi am gyfnod y cwrs, ond oherwydd newidiadau posibl yn y portffolio, noder efallai na fydd hwn yr un llety pob blwyddyn.

Os oes gennych weithiwr cymdeithasol personol a fydd yn eich galluogi i fyw yn annibynnol yn y brifysgol, gallwn hefyd ddarparu ystafell ar ei gyfer (bydd angen talu am gost lawn yr ystafell hon).

I sicrhau eich bod yn cael cymorth priodol gyda’ch astudiaethau, caiff ei argymell eich bod yn cysylltu â’r Tîm Cynhwysiant a’i hysbysu o’ch anabledd a’r addasiadau sydd eu hangen arnoch. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y tîm, sy’n cynnwys ei fanylion cyswllt, ar gael yn https://wrexham.ac.uk/cy/cymorth-myfyrwyr/cynhwysiant/

Gweler yr adran Cyfrinachedd a Diogelu Data isod mewn perthynas â datgan eich anabledd i’r Gwasanaethau Llety.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch llety addas, cysylltwch â ni dros e-bost ar accommodation@wrexham.ac.uk

**Dyrannu ystafelloedd yn ystod y Flwyddyn Academaidd**

Gall/Bydd y Tîm Preswyl a Bywyd Campws yn dyrannu ystafelloedd yn ystod y flwyddyn academaidd a bydd yn ceisio sicrhau bod y myfyriwr yn cyd-fynd â meini prawf y fflat/ystafell a ddyrannwyd iddo.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae’r Brifysgol yn gweithredu Polisi Cyfleoedd Cyfartal ac, yn unol â hynny, mae’r Tîm Preswyl a Bywyd Campws yn cynnig llety i fyfyrwyr, waeth beth yw eu hil, rhywedd, crefydd, anabledd neu rywioldeb. Mae disgwyl i fyfyrwyr mewn llety prifysgol gynnal egwyddorion y polisi hwn a bod yn oddefgar o’i gilydd.

**Cyfrinachedd a Diogelu Data**

Mae Datganiad Polisi Preifatrwydd y Brifysgol yn egluro beth sy'n digwydd i'r wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu i'r Brifysgol, neu'r wybodaeth bersonol mae'r Brifysgol yn ei chasglu gennych. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd amdanoch chi yn ystod y broses ymgeisio am lety. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio ar gyfer gweinyddu a dyrannu llety ac i ddarparu'r gwasanaeth llety.

Efallai y byddwn yn rhannu eich data gydag adrannau a chyfadrannau eraill o fewn y Brifysgol, pan fo'n angenrheidiol yn unig, ar gyfer darparu'r gwasanaethau llety a llesiant myfyrwyr.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chyflwr meddygol neu anabledd, mae hon yn wybodaeth bersonol sensitif dan ddeddfwriaeth diogelu data. Caiff y wybodaeth hon ei rannu ag adrannau eraill y Brifysgol gyda'ch cydsyniad yn unig.

Lle'r ydych eisoes wedi datgan cyflwr meddygol neu anabledd i'r Tîm Cynhwysiant, efallai eich bod eisoes wedi cytuno i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r staff Preswyl a Bywyd Myfyrwyr perthnasol. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i ddarparu cymorth priodol ac addasiadau rhesymol lle bo'n briodol.

Pe hoffech hysbysu'r tîm Preswyl a Bywyd Campws am gyflwr meddygol neu anabledd, ond nad ydych eisoes wedi cytuno i'r wybodaeth gael ei rhannu gan y Tîm Cynhwysiant, gofynnwn i chi gysylltu â'r Tîm Preswyl a Bywyd Campws ar accommodation@wrexham.ac.uk i ddarparu'r wybodaeth.